Corrie Ten Boom: 1892-1983

Chwain yn y carchar

Dewrder / maddeuant / ffyddlondeb

Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig dysgu maddau i'n gilydd? Ydi o'n iawn i ddal dig tuag at bobl eraill? Yn y stori hon cawn hanes gwraig a garcharwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er iddi gael ei phoenydio fe faddeuodd i'w phoenydiwr.

"Mae 'na le i ryw ugain arall," gwaeddodd un o'r gwarchodwyr. Dyma ei gyd-warchodwyr yn gwthio ugain o wragedd i grombil y wagen. Yn eu plith roedd dwy chwaer – Corrie a Betsie. Roedden nhw ar eu ffordd i'r carchar. Roedd wyth deg ohonyn nhw yn y wagen oedd yn cael ei thynnu gan drên. Am bedwar diwrnod bu'r trên yn araf bwffian trwy'r wlad. Yna, dyma gyrraedd pen y daith, sef carchar Ravensbruck. Gwyddai'r ddwy chwaer na fydden nhw byth yn cael dod allan o'r carchar hwn yn fyw.

Ar ôl mynd i mewn drwy'r giatiau haearn, bu'n rhaid i'r merched gymryd cawod. Roedd hyn yn golygu tynnu eu dillad o flaen y gwarchodwyr. Ond roedd gan Corrie rywbeth i'w guddio. Beibl a moddion ar gyfer ei chwaer. Beth allai hi wneud?

"Mae'n rhaid i mi fynd i'r toiled," meddai wrth un o'r gwarchodwyr.

"Gwnewch yn y dreiniau yn fan'na," oedd yr ateb pendant yn ôl. Ar ei ffordd i gornel y gawodfa fe welodd hi ddwy fainc ar bennau'i gilydd.

"Dyna le da i guddio'r Beibl a'r moddion." Ac felly y bu.

Ar ôl ymolchi yn y gawod, aeth i chwilio am y Beibl a'r moddion a'u cuddio unwaith eto o dan ei dillad.

Ond beth oedd yn digwydd yn awr? Roedd y gwarchodwyr yn archwilio pob un o'r merched ar eu ffordd o'r gawod. "Maen nhw'n siŵr o weld y Beibl y tro hwn," meddai wrthi'i hun. Dechreuodd weddïo tra oedd yn sefyll yn y gynffon o ferched oedd yn disgwyl i gael eu harchwilio.

Roedd hi'n gwybod bod Duw yn barod wedi ateb ei gweddïau. Do, fe gafodd le i guddio'r Beibl a'r moddion. Roedd hi'n gwybod y byddai Duw'n helpu'r eilwaith.

Ond fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn. Fe gafodd y wraig oedd yn sefyll o'i blaen ei harchwilio'n drylwyr. Corrie oedd y nesaf. Ond am ryw reswm wnaeth y gwarchodwyr ddim cymryd fawr sylw ohoni. Fe'i hanwybyddodd yn llwyr. Aeth yn syth at Betsie oedd yn sefyll tu ôl iddi.

Digwyddodd yr un peth yn union wrth iddyn nhw adael yr adeilad. Pan ddaeth y gwarchodwr ar draws Corrie dywedodd, "Ymlaen, brysiwch, ymlaen â chi," heb ei harchwilio o gwbl. Gwthiodd hi allan o'r adeilad a hithau a'i Beibl o dan ei dillad. Bu cryn ddefnydd ar y Beibl ar ôl y diwrnod hwnnw. Bob bore byddai Corrie yn darllen y Beibl i'w chyd garcharorion. Fe fydden nhw hefyd yn gweddïo'n ddistaw bach ac yn cyd-ganu emynau yn ddistaw bach.

Ond beth petai un o'r gwarchodwyr yn dod i mewn i'r ystafell? Byddai'n sicr o ddwyn y Beibl. Ond ddaeth yna'r un gwarchodwr i mewn o gwbl. Ymhellach ymlaen daethpwyd i wybod pam. Roedd y rhan yma o'r carchar yn llawn o chwain. Doedd y gwarchodwyr ddim eisiau chwain ar eu dillad. Felly, yr unig beth i'w wneud oedd cadw draw. Credai Corrie fod pob chwannen yn wyrth fechan gan Dduw.

Ar ôl misoedd yn y carchar, bu farw Betsie. Ac ymhen tridiau ar ôl ei marwolaeth cafodd Corrie ei galw i'r swyddfa. "Mae'n rhaid eu bod wedi darganfod y Beibl," meddai wrthi'i hun.

Cafodd ddarn o bapur ac arno'r geiriau "Rhyddhawyd". Roedd hi'n rhydd i adael y carchar. Roedd hi wedi gwirioni'i phen. Ond pam? Fe ddarganfuwyd mai camgymeriad oedd y cyfan. Ond roedd Corrie ymhell, bell i ffwrdd erbyn hynny.

Penderfynodd roi ei bywyd i gyd i Dduw. Un noson, mewn eglwys yn yr Almaen, ar ôl iddi orffen siarad â'r gynulleidfa, daeth dyn ati i ysgwyd ei llaw. Pwy oedd o tybed? Ef oedd y gwarchodwr yn y carchar yn Ravensbruck. Cofiodd Corrie am ei greulondeb.

"Fedra i ddim maddau iddo," meddai. Ond clywodd lais Duw. Ysgydwodd ei law a thrwy hynny maddeuodd i'r gwarchodwr. A dyna fu hanes Corrie am weddill ei hoes – dysgu pobl i faddau i'w gilydd. Bu farw yn 1983 yn 91 oed.

"Yr Arglwydd yw fy mugail."
Salm 23:1

O Dad, helpa fi bob amser i faddau.
Paid â gadael i mi ddal dig.
Amen.

Trafodwch y syniad o faddeuant.
Beth mae maddeuant yn ei wneud i'r hwn sy'n maddau?